


Ffurflen dogfen ymateb i'r ymgynghoriad

Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

Rhaid i'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad hon gael ei dyroddi gan berchennog y safle yn dilyn ymgynghoriad ar reolau safle arfaethedig yn unol â rheoliad 7 ac 8 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014. Rhaid i'r ddogfen gael ei hanfon at bob ymgynghorai o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod ymgynghori olaf.

1. Y penderfyniad rwyf wedi ei wneud ynghylch pa un ai i weithredu'r cynnig/cynigion yr ymgynghorwyd arnynt ai peidio (gydag addasiadau neu hebddynt):

2. Manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd, gan gynnwys y diwrnod ymgynghori cyntaf a chrynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad a'r addasiadau hynny a wnaed i'r cynnig/cynigion (os o gwbl) o ganlyniad i'r ymgynghoriad:



3. Amgaeaf gopi o unrhyw reolau safle ar y ffurflen y byddaf yn eu hadneuo gyda'r awdurdod lleol.

4. [Os yw'n berthnasol] Rwy'n bwriadu adneuo hysbysiad dileu gyda'r awdurdod lleol, gan nodi y bydd y rheolau safle canlynol yn cael eu dileu.



5. Fe'ch hysbyir o fewn 7 niwrnod ar ôl adneuo'r rheolau safle a/neu'r hysbysiad dileu gyda'r awdurdod lleol. [gweler rheoliad 13]

6. Yr hawl i apelio

Cewch apelio i'r tribiwnlys o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r ddogfen ymgynghori hon ddod i law, ar un neu ragor o'r seiliau a bennir yn rheoliad 10:

- (a) mae rheol safle yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r materion rhagnodedig a nodir yn Atodlen 5;
- (b) nid yw'r perchennog wedi cydymffurfio â'r gofyniad gweithdrefnol a osodir gan reoliadau 7 i 9 o'r Rheoliadau hyn;
- (c) roedd penderfyniad y perchennog yn afresymol gan roi sylw, yn arbennig, i –
 - (i) y cynnig neu'r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad;
 - (ii) maint, cynllun, cymeriad, gwasanaethau neu amwynderau'r safle; neu
 - (iii) telerau unrhyw ganiatâd cynllunio neu amodau'r trwydded safle.

Rhaid i chi fy hysbysu am unrhyw apêl a wneir i'r tribiwnlys o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r ddogfen ymgynghori hon ddod i law. Yn achos apêl, ni chaiff unrhyw reolau safle neu hysbysiad dileu eu hadneuo gyda'r awdurdod lleol hyd nes i'r apêl gael ei gwaredu, y penderfynir arni neu y rhoddir y gorau iddi, fel y nodir yn rheoliad 12(2).

- 7. Rwy'n cadarnhau y daw unrhyw reolau safle neu ddileadau i rym ar ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad adneuo ei gyflwyno.

Nodiadau

- (i) Pan fydd cynnig yn ymwneud ag amrywio neu ddileu rheol safle, yn unol ag is-adran 52(5) neu (6) o Ddeddf 2013, bydd y rheolau safle sydd mewn grym cyn yr ymgynghoriad hwn yn parhau mewn grym hyd nes i unrhyw apêl mewn perthynas ag amrywio neu ddileu rheol safle gael ei gwaredu neu y penderfynir arni [gweler rheoliad 14(2).]